CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain CHWEFROR 2023.

PRESENNOL:
Cyng J Evans (Cadeirydd) D T Roberts (Is-Gadeirydd) G Jones, J E Lewis, Miss B Owen, W R Parry, R R Roberts,

YMDDIHEURIADAU:
Cyng Ms N Dafydd, R G Parry. Mrs L Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.
Neb.

CAEL COFNODION 17eg IONAWR 2023. YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R G Parry. (Ar ol diwygio y geiriau "Y Cyngor ddipyn yn hollt" ar Cynllun HR/2022/1. Tir ger Bryn Tanchwy, Llynfaes. Rhif 2.)

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Elusen William Bold.
Oherwydd na chafwyd y gofynion erbyn y dyddiad gosod, pasiwyd i anfon y dogfennau i`r Comisiwn Elusennau. Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng R R Roberts. Dim gwrthwynebiad.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2023/21. Cais ol-weithredol ar gyfer cadw Swyddfa Gartref arwhan ynghyd a`r estyniad i`r cwrtil preswyl a`r gwaith cysylltiedig yn:-
   Rhyd Cardog, Llandrygarn.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng R R Roberts, eilo Cyng G Jones. Unfrydol.

2. FPL/2023/13. Cais llawn i godi adeilad Swyddfa (Defnydd Dosbarthu B1) yn:-
   AE & A T Lewis Ltd, 12 Stad Ddiwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng Miss B Owen. Unfrydol.

PENDERFYNIADAU.
3. Dim. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Cynllun Lleisiant Gwynedd a Mon - Cyfle i Ddweud eich dweud.
   Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy`n cynnwys y ddau Gyngor Sir.
   Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladar a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghyd a Sefydliadau eraill - wedi llunio ei Gynllun Llesiant Drafft 2023 - 28.

Bwriad o wella Lles Cymdeithiasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol yr Ardal.
Cyfle i Drigolion, Mudiadau Lleol rhannu barn.
Llenwi Holiadu`r byr :- https://www.llesiantgwynedd.org/cy/cynllun-llesiant/
Ceir copiau papur drwy`r Llyfrgell Leol. Cyswllt Mon, Siop Gwynedd.
Ffon 01766 771000. Bydd yr Holiadu`r ar gael hyd 6ed Mawrth 2023.
Derbyn yr uchod nid oedd llawer o ddiddordeb.

5. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Anrhydedd i Wil Stewart.
Cafodd ei ddewis fel un o Ysgogwyr Cymru. (Newid Cenedlaethau`r Dyfodol 100)
Warden Parc y Morglawdd, Caergybi.
Y Cyngor yn dymuno y gorau iddo yn y dyfodol.

6. Rheolwr Polisi ar Gymraeg. Ffreuer Owen.
Bydd gwersi Cymraeg i ddechreuwyr. Ceir gostyngiad o 50% ar bris y gwersi gyda cod Cymru 23. Dechrau ym mis Ionawr 2023 yn Biwmaris a Bodffordd. Gofynnir i`r Cynghorwyr rhannu y gwybodaeth trwy`r pentref a pellach.
Mwy o wybodaeth 01248 383928. dysgucymraeg@bangor.ac.uk

7. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi. Y cam olaf i drawsnewid safle Hen Faes Hofrenyddion, gyda 23 o unedau yn cychwyn ym mis Chwefror 2023. Mwy o wybodaeth trwy Lee Jones o Uned Gyfathrebu 01248 752129. Calonnog iawn i Caergybi.

8. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
Gwaith diweddaraf o £608,000 yn fuddsoddiad yn y cyfleusterau i dros £1.2 miliwn dros y cyfnod o ddwy flynedd diwethaf. Yng Nghanolfan Hamdden Amlwch.
Cyllid wedi`i ddarparu gan y Cyngor Sir (£390,000.) Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-Gydbwyso lechyd a Gofal Cymdeithiasol Llywodraeth Cymru (£128,625) a Chwaraeon Cymru (£90,000) Gobeithi`r bydd yn cael ei ddefnyddio a`i barchu.

9. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
Hoff weithiau Celf Cymru ar Daith drwy`r Genedl.
Bydd o gwmpas 30 o waith Celf o Gasgliad Amgueddfa Cymru yn teithio i Oriel Ynys Mon o Chwefror i 14eg Mai 2023.
Mae mynediad am ddim i`r Oriel ac ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Sul rhwng 10yb a 5yh.
Y Cynghorwyr yn derbyn y wybodaeth ac yn cymell y Sir i fynychu, nid yn amal mae y cyfle hyn ar gael.

10. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Mwy o ddiwrnodau agored i bobl dros 50 oed. Wedi ei drefnu mewn Partneriaeth rhwng Gwasanaeth Hamdden y Cyngor Mon Actif a`r Gwasanaethau Oedolion. Wedi datblygu ar ol dau ddiwrnod agored yng Nghanolfan Hamdden Amlwch a Biwmares.
Gweithgareddau Hamdden am ddim yn cynnwys Pickleball, Pel-Rhwyd Cerdded, Ymarferion Grwp, Celf a Chreft.
Derbyn a wybodaeth. Cyfle da i rhyddhau y tyndra.

11. Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid. Nikki Jones.
Cronfa Gwella`r Amgylched a Chymunedau. Cau 31ain Mawrth 2023.
Caniatau Tenantiaid neu Grwpiau Cymunedol (A`r rhan tenantiaid) ymgeisio am arian grant at £5,000. Prosiectau Amgylched i ddiogelu y Gymuned. Taclus a braf i fyw ynddo.

Manylion pellach. Y Linc. Cronfa Gwelliannau Amgylched y Chymunedol (llyw.cymru)
Derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

12. Chwarae Dros Gymru. Newyddion Chwarae a Gwybodaeth gan Elusen Genedlaethol.
Cylchgrawn. Cyng G Jones yn cael golwg arno.

RHODDION.

13. Radio Gymunedol MonFM.
Pasiwyd i gyfrannu £50.00. Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R R Roberts. (Unfrydol)

14. Eisteddfod Mon. Bro Alaw. Gadael.

15. Hosbis Dewi Sant..
Pasiwyd i gyfrannu £50.00. Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R R Roberts. (Unfrydol)

Mae y Cyngor wedi bod yn cyfrannu ei rhoddion yn y gorffennol a`r ddiwedd ei blwyddyn ariannol mis Mawrth. Oherwydd fod rhai ceisiadau yn dod i law ym mis Ebrill mae yn amser i ddisgwyl cyn gwneud penderfyniad. O hyn ymlaen bydd ceisiadau yn cael ei trafod yn fisol. (Unfrydol)

PLWYFOL.

16. Cyflwr Lon Cae`r Delyn, Bodffordd. (Cyng G Jones)
Palmentydd a tyllau yn gwaethygu. Y Clerc wedi anfon i`r Cyngor Sir am yr ail waith ynghylch hyn ond dim wedi cael ymateb. Efallai bydd y drydydd waith yn llwyddiannus.

17. Pipen ddwr wedi cael ei thorri a`r tap wedi cael difrod yn y Fynwent Gymunedol Bodffordd.
Mae`r Cadeirydd Cyng J Evans a Cyng G Jones i gael golwg a`r Cyngor i dalu am yr atgyweirio. (Unfrydol)

18. Rhyd Caradog, Llandrygarn. Gweithgareddau yn cymryd lle. Heb gael ateb gan Adran Cynllunio y Cyngor Sir. Na atebiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru (y Cyngor Sir wedi ei hysbysu) Cafwyd cais FPL/2023/21. gweler Rhif 1. Ond nid ydyw yn ymwneud a`r ty. Y Clerc i ailgysylltu. Bydd Cyng Miss B Owen yn cysylltu a Gyfoeth Naturiol Cymru.

19. Llwybrau Cynnal a Chadw.
Eglwys Llandrygarn angen Gwastraff Chwarel ar y lon. Y Cyngor yn cadarnhau i gael beth sydd angen o wastraff o`r Chwarel i wneud y gwaith. Unfrydol.

Cael yr amcangyfrif ar frys er mwyn i`r Clerc ar ran y Cyngor gael hawlio y cyfanswm yn ol gan y Cyngor Sir cyn diwedd y flwyddyn ariannol Mawrth 2023.

20. Hysbysfordiau.
Cael amcangyfrif i osod yr uchod yn Ysgol Bodffordd a`r Fynwent Gymunedol Bodffordd a Neuadd Goffa Bodwrog
Cyng R R Roberts yn gofyn i Mr Barry Owen, Llwyn Drain, Llanerchymedd.
Clerc yn gofyn i Mr Nigel Williams, Bodedern (Mae yn torri glaswellt y Fynwent Gymunedol.
Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng J E Lewis. (Unfrydol)